Ysgol Treganna

Cylchlythyr wythnosol

Wythnos yma



Bore Agored

Roedd yn hyfryd croesawu cymaint o ddarpar rieni i'n Bore Agored heddiw. Cafodd pawb gyfle i grwydro o amgylch ein dosbarthiadau Derbyn a'n darpariaeth Feithrin er mwyn cael blas ar fywyd bob dydd yn Ysgol Treganna.

Bu ymwelwyr hefyd yn ymweld â'n cyfleusterau,gan gynnwys cegin fach newydd y Dosbarth Derbyn, Caffi'r Coed a'r Labordy Adeiladu. Yn ystod y bore, cafwyd taith o amgylch yr ysgol i weld ein continwwm chwarae ar waith, ynghyd â'n darpariaeth lles, Y Cwtch, ein hwb dysgu ac addysgu, Y Jig-so, a'n hwb cymunedol, Y Nyth.

Roedd hefyd yn bleser gweld sut mae ein plant ieuengaf yn dysgu ac yn rhyngweithio yn yr ardal ddysgu awyr agored.

Diolch yn fawr i bawb a ddaeth i ymweld â ni. Roedd yn hyfryd cael y cyfle i rannu blas o'r hyn sy'n gwneud Ysgol Treganna yn gymuned mor arbennig!

Disgo Calan Gaeaf

Rydym yn edrych ymlaen yn fawr at ein disgo Calan Gaeaf nos Iau nesaf, 22ain o Hydref. Gweler y poster sydd wedi'i atodi am ragor o wybodaeth.

Diolch yn fawr i'r staff a fydd yn rhoi o'u hamser i oruchwylio'r disgo ac i wirfoddolwyr y Gymdeithas Rhieni ac Athrawon am eu cefnogaeth barhaus.

Calendr

Gwyliau hanner tymor 26.10.26

Ysgol yn ail agor i bawb 2.11.26

Disgo Calan Gaeaf



Diwrnodau Dathlu

Mae'r ysgol wedi bod yn llawn lliw yr wythnos hon wrth i ni wisgo coch, gwyn a gwyrdd i ddathlu Diwrnod Shwmae Su'mae, a gwisgo coch i gefnogi ymgyrch Dangos y Cerdyn Coch i Hiliaeth.

Drwy gydol yr wythnos, mae'r disgyblion wedi cymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau a digwyddiadau i ddysgu mwy am bwysigrwydd cynhwysiant, perthyn a dathlu ein diwylliannau a'n hieithoedd.

Diolch i'r staff a'r pwyllgorau disgyblion am eu gwaith caled wrth drefnu a chynnal y gweithgareddau hyn.

Pêl-droed

Da iawn i'r chwe thîm pêl-droed a fu'n cystadlu yn nhwrnamaint pêl-droed cymysg yr Urdd, Blwyddyn 4 yr wythnos ddiwethaf. Roedd yn wych gweld cymaint o blant yn cael y cyfle i gynrychioli'r ysgol a chystadlu.

Llongyfarchiadau arbennig i dîm Ysgol Treganna a fydd yn cynrychioli Caerdydd a'r Fro yn Nhwrnamaint Cenedlaethol Cymru yn Aberystwyth ym mis Mai. Rydym yn falch iawn ohonoch!

Diolch yn fawr hefyd i'r aelodau staff sydd wedi ymrwymo eu hamser i hyfforddi a chefnogi'r disgyblion

Patrwm Iaith yr Wythnos

Beth wyt ti am wneud dros yr hanner tymor?
Dros yr hanner tymor rydw i am…

Her

Rydw i'n gobeithio mynd/ gwneud
Edrychaf ymlaen at…

Testun trafod yr wythnos

Ar ddiwrnod gwlyb does dim yn well na…

Cân yr Wythnos

Dadleoli- Diwrnodau Haf

Idiom/ Dihareb yr wythnos

Rhoi'r ffidl yn y to